



**MEINI PRAWF CYMERADWYO
DRAFFT**

**TGAU
AMGYLCHEDD
ADEILEDIG**

Cynnwys

Rhif y dudalen

Cyflwyniad

2

Diben

2

Nodau'r pwnc

3

Cynnwys y pwnc

3

Uned 1

4

Uned 2

6

Uned 3

10

Amcanion asesu

11

Cynllun asesu

12

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Amgylchedd Adeiledig. Datblygwyd y meini prawf yn dilyn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Maent yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu ar gyfer cymhwyster TGAU yn y pwnc hwn.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym ar _____ .

Bydd hefyd angen i fanylebau ddiwallu anghenion ein Hamodau Cydnabod Safonol a'n Meini Prawf Cymeradwyo Cymhwyster.

Diben

Mae'r cymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig yn cyflwyno dysgwyr i'r amgylchedd adeiledig, ac yn datblygu eu dealltwriaeth ohono, gan gynnwys y crefftau a'r rolau ynddo, y cyfarpar, y technolegau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw, a'r prosesau sy'n rhan o'r gwaith o'i gynllunio. Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r sgiliau ymarferol sy'n rhan o'r camau gwahanol o gylch oes yr adeilad ac yn eu hannog i ymchwilio i'w hamgylchedd adeiledig eu hunain a deall yr effaith mae'n ei chael ar yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd adeiledig.

Gall dysgwyr sydd am ddechrau eu taith tuag at yrfa yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig astudio'r cymhwyster hwn, p'un a yw hynny mewn rolau ar sail crefftau, rolau proffesiynol neu rolau rheoli, neu gan ddysgwyr sydd am ddatblygu eu dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig yn fwy cyffredinol. Mae wedi'i gynllunio i apelio at ystod eang o ddysgwyr sydd â diddordebau gwahanol, a chanolfannau sydd â chyfleusterau a sgiliau gwahanol ymhlith eu staff a chynnig dewis dros y ffordd y bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth cyffredinol yn y maes pwnc. Mae'n annog sybsidiaredd mewn ysgolion ac yn eu galluogi i archwilio eu cymunedau eu hunain ac mae'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr.

Nodau ac amcanion y pwnc

1. Mae'n rhaid i'r cymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig alluogi dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:
 - 1.1 Dealltwriaeth o'r camau gwahanol yng nghylch oes yr amgylchedd adeiledig;
 - 1.2 Dealltwriaeth o'r ffordd mae crefftau a gwasanaethau gwahanol yn ymwneud â'i gilydd o fewn yr amgylchedd adeiledig;
 - 1.3 Gwerthfawrogiad o'r amgylchedd adeiledig a'i rôl yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys cynllunio, creu, defnyddio a chynnal a chadw;
 - 1.4 Sgiliau ymholi drwy archwilio'r amgylchedd adeiledig yn y gymuned a'r byd lle maent yn byw;
 - 1.5 Sgiliau mewn prosiectau cynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig, drwy ddefnyddio'r cyfarpar priodol i wneud hynny;
 - 1.6 Sgiliau ymarferol wrth gynllunio neu adeiladu elfennau o'r amgylchedd adeiledig;
 - 1.7 Sgiliau wrth ddefnyddio tystiolaeth i werthuso defnydd, perfformiad ac effaith yr amgylchedd adeiledig, mewn perthynas â'u gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill;
 - 1.8 Dealltwriaeth o'r cyfarpar, y deunyddiau a'r prosesau a ddefnyddir wrth gynllunio, adeiladu a rhoi gwerth ar yr amgylchedd adeiledig a'i ddefnyddio, gan gynnwys sut maent yn newid dros amser.

Cynnwys y pwnc

2. Mae'n rhaid i gynnwys pwnc manylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig fodloni nodau ac amcanion y pwnc a chynnwys y wybodaeth a'r sgiliau a nodir ar gyfer pob uned isod.
3. Dylid rhannu cynnwys y pwnc yn yr unedau canlynol o astudio:
 - 3.1 **Uned 1:** Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig
 - 3.2 **Uned 2:** Creu'r Amgylchedd Adeiledig
 - 3.3 **Uned 3:** Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig.

Uned 1

4. Yn Uned 1, mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

- 4.1 Nodi a disgrifio syniadau, cysyniadau a gwybodaeth am yr amgylchedd adeiledig;
- 4.2 Egluro cysyniadau yn yr amgylchedd adeiledig;
- 4.3 Gwerthuso tystiolaeth, syniadau a chysyniadau yn yr amgylchedd adeiledig;
- 4.4 Cymharu a chyferbynnu syniadau a chysyniadau yn yr amgylchedd adeiledig a thystiolaeth sy'n ymwneud ag ef.

5. Y meysydd pwnc canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Pynciau	Cynnwys Hanfodol
Sector	Y prif brosiectau ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Adeiladau• Prosiectau seilwaith a pheirianeg sifil• Peirianeg gwasanaethau adeiladu.
Cylch oes yr amgylchedd adeiledig	Ar gamau: <ul style="list-style-type: none">• Echdynnu deunyddiau crai• Gweithgynhyrchu• Adeiladu• Gweithredu a chynnal a chadw• Dymchwel• Gwaredu, aildefnyddio neu ailgylchu.
Mathau o adeiladau isel	Nodweddion a chartrefi preswyl ac adeiladau masnachol, diwydiannol, amaethyddol, cymunol, crefyddol a hamdden; ffurfiau gwahanol ar adeiladu seilwaith.
Cyfarpar, technolegau a deunyddiau	<ul style="list-style-type: none">• Prif elfennau a chydrannau adeiladau isel• Y prif ddeunyddiau sy'n rhan o adeiladu waliau, gosod gwasanaethau adeiladu, gosod toeon, gorffen deunyddiau tu mewn.

<p>Strwythurau a ffurfiau adeiladau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Technolegau a deunyddiau adnewyddadwy, gan gynnwys pypmiau gwres, tyrbinau gwynt a phaneli solar. <p>Gwaith adeiladu cellog, gwaith adeiladu ffrâm hirsgwar, gwaith adeiladu ffrâm porth, dulliau treftadaeth a thraddodiadol.</p>
<p>Dulliau cynaliadwy o adeiladu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Manteision amgylcheddol, ariannol, diwylliannol a chymdeithasol dulliau adeiladu cynaliadwy; • llygredd a chadw'r amgylchedd naturiol a chynefinoedd naturiol; • deunyddiau cynaliadwy a ddefnyddir i greu fframiau adeiladu, waliau, toeon; • gwaredu, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff; • caniatâd adeiladu, safleoedd tir brown a safleoedd tir gwyrdd.
<p>Crefftau, cyflogaeth a gyrfaoedd</p>	<p>Gyrfaoedd yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pensaernïaeth • Peirianeg sifil a strwythurol • Rheoli safle adeiladu • Tirfesur • Gosod brics • Plastro • Gwaith saer ac asiedydd • Trydanol • Peirianeg nwy • Plymio • Paentio, addurno a gorffen.
<p>Iechyd a diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Risgiau i gyflogeion, cyflogwyr a'r cyhoedd yn ystod prosiectau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. • Dilyn gweithdrefnau a chwblhau asesiadau risg. • Deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys COSHH. • Defnyddio cyfarpar diogelu personol. • Gweithio gyda nwy, dŵr a thrydan yn ddiogel. • Gweithio ar uchder ac mewn gofodau amgaaedig.

Uned 2

6. Yn Uned 2, mae'n rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am greu'r amgylchedd adeiledig a'u dealltwriaeth ohono a'r sgiliau sy'n ofynnol wrth wneud hynny. Mae'n rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau naill ai ym maes cynllunio *neu* adeiladu'r amgylchedd adeiledig. Ym mhob llwybr, mae'n rhaid i Fanylebau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig		Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig	
Sgiliau	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwybodaeth a dealltwriaeth
Nodi a chyfrifo'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cynlluniau adeiladu.	<ul style="list-style-type: none"> • Arwynebedd • Cyfaint • Hyd • Onglau • Gofynion cynllunio lefel uchel. 	Dehongli ystod o ffynonellau technegol o wybodaeth.	Symbolau, confensiynau a therminoleg y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Manylebau • Rheoliadau adeiladu • Lluniadau • Briffiau cynllunio.
Ysgrifennu a phennu meini prawf llwyddiant prosiect priodol i fodloni paramedrau a ddiffiniwyd.	O ran y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Lefelau goddefiant • Terfynau amser • Ansawdd. 	Cynllunio a threfnu gwaith sy'n bodloni gofynion penodol.	Y ffordd y caiff gwaith ei drefnu, ei gynllunio i fodloni terfynau amser ac i gydymffurfio ag arferion iechyd a diogelwch perthnasol.
Lluniadu gwahanol fathau o gynllunio (gan gynnwys lluniadau wrth raddfa wedi'u chwyddo a'u lleihau).	Confensiynau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau bloc • Cynlluniau llawr • Trawsdoriadau • Lluniadau wrth raddfa. 	Nodi'r gofynion adnoddau i fodloni gofynion cynllunio.	Y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarpar • Offer • Cyfarpar diogelu personol

			<ul style="list-style-type: none"> • Deunyddiau yn seiliedig ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Nodweddion ○ Rhinweddau ○ Cynaliadwyedd ○ Cyfyngiadau.
Lluniadu gweddluniau.	<p>Confensiynau a gofynion dyrchafiadau sydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn Fewnol • yn Allanol <ul style="list-style-type: none"> ○ yn y Cefn (Gogledd) ○ yn y Blaen (De) ○ i'r Chwith (Dwyrain) ○ i'r Dde (Gorllewin). 	Cyfrifo'r deunyddiau sy'n ofynnol i gwblhau tasgau adeiladu sy'n bodloni gofynion cynllunio.	<p>Y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfaint • Arwynebedd • Perimedr • Amser • Cymhareb.
Defnyddio iaith drafftio.	<p>Y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safonau BS (BS 1992:2007 + A2:2016 a diweddariadau dilynol, Modelu Gwybodaeth am Adeiladau) • Confensiynau: <ul style="list-style-type: none"> ○ Anodiadau ○ Llinellau ○ Llinellu • Ystod o symbolau. 	Ysgrifennu a phennu meini prawf llwyddiant prosiect priodol i fodloni gofynion briffiau a bennwyd.	<p>Ynghylch y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lefelau goddefiant • Terfynau amser • Ansawdd.

<p>Lluniadu cynlluniau 2D o gynlluniau adeiladu, drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynlluniau • Mireinio cysyniadau • Braslunio lluniadau technegol. 	<p>Confensiynau a gofynion cynlluniau 2D cynlluniau adeiladu.</p>	<p>Paratoi ar gyfer tair tasg adeiladu o blith y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tecstilau • Pren • Brics • Plastr • Addurniadau • Teils • Trydanol • Plymio <p>drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwirio deunyddiau am namau • Trefnu deunyddiau • Mesur deunyddiau • Marcio deunyddiau • Torri deunyddiau • Gosod deunyddiau • Dewis deunyddiau rhwymyn sych • Cymysgu deunyddiau mortar. 	<p>Nodweddion deunyddiau cyffredin sy'n ofynnol i gwblhau tasgau adeiladu (mewn perthynas â'r tair techneg a ddewiswyd).</p>
<p>Lluniadu cynlluniau 3D o gynlluniau adeiladu, drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso golygfeydd, cefndiroedd a chyffiniau 	<p>Confensiynau a gofynion cynlluniau 3D cynlluniau adeiladu.</p>	<p>Cwblhau technegau mewn tri o'r meysydd uchod wrth ymateb i ofynion cynllunio. Dylai manylebau annog dysgwyr a chanolfannau i</p>	<p>Y prosesau sy'n rhan o gwblhau tasgau adeiladu syml (mewn perthynas â'r tair techneg a ddewiswyd).</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Rendro • Gwella cynigion • Creu golygfeydd 360° • Ychwanegu elfennau, manylion a lliw adeiladu. 		<p>gwblhau ystod o dasgau cyfoes a thraddodiadol (lle y bo'n berthnasol i'r meysydd a ddewiswyd).</p>	
<p>Gwerthuso ansawdd tasgau cynllunio a gwblhawyd mewn ymateb i'r gofynion ac yn erbyn meini prawf llwyddiant a bennwyd yn bersonol.</p>		<p>Tynnu a gwaredu deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth gwblhau tri o'r technegau uchod yn ddiogel.</p>	<p>Dulliau diogel ac amgylcheddol gyfrifol o waredu deunyddiau a ddefnyddir yn gyffredin wrth gwblhau tasgau o'r tair techneg a ddewiswyd.</p>
		<p>Defnyddio arferion gweithio sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill, gan sicrhau glanweithdra a diogelwch eu hardaloedd gwaith eu hunain a defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir.</p>	<p>Ymwybyddiaeth o arferion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â phob un o'r technegau a ddewiswyd.</p>
		<p>Gwerthuso ansawdd tasgau adeiladu a gwblhawyd mewn ymateb i'r gofynion ac yn erbyn meini prawf llwyddiant a bennwyd yn bersonol.</p>	

Uned 3

7. Yn Uned 3, mae'n rhaid i fanylebau ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

- 7.1 Nodi a disgrifio'r ffactorau sy'n effeithio ar bob cam o gylch oes yr adeilad a'r pynciau yn adran 7.6;
- 7.2 Gwerthuso a dadansoddi pob cam o gylch oes yr adeilad a'r pynciau yn adran 7.6;
- 7.3 Ymchwilio i gamau a phrosesau sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio, adeiladu a rhoi gwerth ar eu hamgylchedd adeiledig a'i ddefnyddio, a dealltwriaeth ohonynt;
- 7.4 Cyflwyno eu canfyddiadau mewn ffyrdd priodol;
- 7.5 Cymharu a chyferbynnu'r prosesau sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio, adeiladu a rhoi gwerth ar adeiladau o gyfnodau gwahanol a'u defnyddio.
- 7.6 Y meysydd pwnc canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

Pwnc	Cynnwys Hanfodol
Camau cynllunio adeiladau a strwythurau	Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) ¹ Camau 0, 1, 2, 3 a 4: <ul style="list-style-type: none">• Diffiniad strategol• Paratoi a briff• Cynllun cysyniad• Cynllun a ddatblygwyd• Cynllun technegol a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion a roddir.
Prosesau adeiladu	RIBA Cam 5 : <ul style="list-style-type: none">• Adeiladu a'r ffyrdd y mae eu hamgylchedd adeiledig wedi cael ei adeiladu i ddiwallu anghenion a roddir.
Llesiant cymunedau	Effaith eu hamgylchedd adeiledig ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.

¹ Cynllun Gwaith RIBA 2013, <https://www.ribaplanofwork.com/PlanOfWork.aspx>, neu'r fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen hon.

Gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth	<p>Y broses o werthuso effaith adeilad neu ased ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Costau rhedeg • Boddhad staff a chleientiaid • Perfformiad • Iechyd a diogelwch • Cysur <p>a'r ffyrdd y gellir defnyddio gwerthusiadau ôl-ddeiliadaeth i gywiro camgymeriadau, llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau a darparu meincnodau ar gyfer gwerthusiadau pellach.</p>
Newid defnydd	<p>Y prosesau sy'n rhan o ailwampio, ailgylchu ac ailddefnyddio stoc adeilad ac asedau yn eu hamgylchedd lleol.</p>
Newid arferion	<p>Y newidiadau yn y prosesau cynllunio ac adeiladu yn eu hamgylchedd adeiledig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau cyfoes • Adeiladau cyn-1919.

Amcanion asesu

8. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu canlynol, yn unol â'r pwysoliadau a roddir:

AA1	Dangos gwybodaeth am y rolau, y sectorau, y cysyniadau a'r prosesau yn yr amgylchedd adeiledig, a dealltwriaeth ohonynt, gan ddefnyddio terminoleg berthnasol.	40%
AA2	Cymhwyso sgiliau a gwybodaeth am yr amgylchedd adeiledig mewn ystod o gyd-destunau a dealltwriaeth ohono.	40%
AA3	<p>Dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth, llunio barn resymol a chyflwyno casgliadau mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - eu cynnyrch/canlyniadau eu hunain - yr amgylchedd adeiledig a'i effaith ar bobl, yr economi a'r amgylchedd naturiol. 	20%

Cynllun asesu

9. Mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig ddangos bod eu cynllun asesu yn cydbwysu ystyriaethau hydrinedd, ymgysylltu, dibynadwyedd a dilysrwydd. Mae'n rhaid i fanylebau sicrhau'r canlynol:
- 9.1 bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn hydrin ar gyfer canolfannau a dysgwyr;
- 9.2 bod y trefniadau asesu, ar y cyfan, yn ennyn diddordeb dysgwyr yn ddigonol ac yn hyrwyddo a chynnal diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc;
- 9.3 y bydd y trefniadau asesu yn sicrhau dibynadwyedd deilliannau asesu, ar lefel y ganolfan ac ar lefel genedlaethol a thros amser, er enghraifft drwy nodi a disgrifio:
- y rheolaethau a fydd yn cael eu cymhwysu i ymgeiswyr a chanolfannau yn ystod asesiadau diarholiad;
 - y ffurfiau o gyflwyno y gellir eu defnyddio gan ymgeiswyr wrth gwblhau asesiadau diarholiad;
 - y ffyrdd y caiff meini prawf marcio eu gosod i'w defnyddio gan athrawon ac arholwyr;
 - y ffordd y caiff asesiadau ar sgrin eu cynnal;
- 9.4 bod y trefniadau asesu yn ffordd ddilys o asesu ar gyfer y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu.

Gofyniad y rhesymeg: Mae'n rhaid i gyrff dyfarnu egluro'r ffordd y caiff y cydbwysedd cyffredinol rhwng y pedair elfen hyn ei gyflawni drwy hyd y cymhwyster. Er enghraifft, gall cynnal asesiad diarholiad ymarferol mewn lleoliad efelychu leihau dilysrwydd yr asesiad ond gwneud yr asesiad yn fwy hydrin i ganolfannau.

10. Mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

Uned	Trefniadau
Uned 1 Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei hasesu drwy arholiad; • Rhaid defnyddio asesiad ar sgrin.
Uned 2 Creu'r Amgylchedd Adeiledig	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei hasesu drwy asesiad diarholiad; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd â phrosiect ymarferol y llunnir deilliannau pendant ohono; • Rhaid cynnwys camau cynllunio, ymarferol a gwerthuso yn y prosiect; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau asesiad <i>naill ai</i> ym maes Cynllunio'r Amgylchedd Adeiledig <i>neu</i> Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau ddarparu ystod o brofiadau ymarferol dros amser; • Mae'n rhaid i bob llwybr gyflwyno lefel tebyg o her ac mae'n rhaid iddynt fod yr un hyd.
Uned 3 Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ei hasesu drwy asesiad diarholiad; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag astudiaeth achos yn yr amgylchedd adeiledig lleol yng Nghymru, lle y bo'n bosibl; • Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno esboniadau ategol i ymgeiswyr sy'n ymchwilio i adeiladau neu strwythurau y tu allan i'r paramedrau hyn; • Rhaid annog dysgwyr i gyflwyno eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys digidol.

11. Mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig bennu pwysoliad o 35% i Uned 1 – Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig.
12. Mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig bennu pwysoliad o 40% i Uned 2 – Creu'r Amgylchedd Adeiledig.
13. Mae'n rhaid i fanylebau TGAU Amgylchedd Adeiledig bennu pwysoliad o 25% i Uned 3 – Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig.
14. Gall TGAU Amgylchedd Adeiledig fod yn unedig neu'n llinol.

15. Ni ddylai TGAU Amgylchedd Adeiledig fod yn haenog.

DRAFT